


# Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru



## Deg Prif Awgrym ar Symud Cydraddoldeb Ymlaen mewn Ysgolion



Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Betsi Cadwaladr  
University Health Board



Cwmni Adsefydlu Cymunedol  
Cymru  
Wales  
Community Rehabilitation Company



## Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus Gogledd Cymru

### Deg Prif Awgrym ar Symud Cydraddoldeb Ymlaen mewn Ysgolion

1. Penodi Llywodraethwr Ysgol yn Bencampwr Cydraddoldeb.
2. Cadw Cynllun Cydraddoldeb Strategol, Cynllun Mynediad i'r Ysgol, Polisi Cydraddoldeb a Pholisi Gwrthfwlio ac Aflonyddu a'u diweddarau fel bo'r angen.
3. Cyfathrebu gyda holl gymuned eich ysgol er mwyn cyfleu eich ymrwymiad i symud cydraddoldeb ymlaen, herio camwahaniaethu a mynd i'r afael â bwlio ac aflonyddu sy'n seiliedig ar hunaniaeth.
4. Defnyddio byrddau rhybuddion cyhoeddus i arddangos eich ymrwymiad i gydraddoldeb, taclo annhegwch a chamwahaniaethu ynghyd ag arddangos beth sydd ar gael o ran cefnogaeth i gyfathrebu a fformatau hygyrch.
5. Sicrhau bod yr holl staff a Llywodraethwyr yn derbyn hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth (fel y mae hynny'n berthnasol i'w rôl) o fewn y drefn anwytho ac fel rhan o ddatblygiad personol parhaus staff sy'n dysgu a'r staff sydd ddim yn dysgu.
6. Defnyddio cyfarfodydd gwerthuso a goruchwyllo i godi materion cydraddoldeb ac amrywiaeth, adnabod anghenion hyfforddiant staff a'r meysydd sydd angen eu gwella yn yr ysgol.
7. Datblygu rhaglen ar gyfer adolygu ac asesu effaith polisiau a gweithdrefnau ar gydraddoldeb.
8. Ymgysylltu ac ymgynghori gydag ystod eang o bobl wrth adolygu a datblygu polisiau a gweithdrefnau newydd.
9. Rhoi trefniadau mewn lle ar gyfer monitro cydraddoldeb o ran ymgeiswyr am swyddi, gweithwyr, Llywodraethwyr a gwirfoddolwyr
10. Sicrhau bod Adroddiad Blynyddol y Corff Llywodraethu i Rieni yn cynnwys gwybodaeth am gynnydd o ran cyflawni Cynllun Cydraddoldeb Strategol yr ysgol a'r deilliannau i'w chymuned o ran cydraddoldeb.

## Mwy o Manyllder

1. Penodi Llywodraethwr Ysgol yn Bencampwr Cydraddoldeb. Dengys hyn ymrwymiad cadarn tuag at gydraddoldeb ar y lefel uchaf yng nghymuned eich ysgol. Dylai'r unigolyn yma fod ag ymrwymiad personol i degwch ac yn barod i ymgymryd â hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth – gall hyn gynnwys e-ddysgu, llyfrau gwaith neu gyrsiau hyfforddi. Nid yw ymgymryd â'r rôl yn golygu bod yr unigolyn yn cymryd cyfrifoldeb unigol i sicrhau bod yr ysgol yn cwrdd â'r gofynion cyfreithiol. Byddai'r unigolyn yn gweithio gyda'r Pennaeth a thîm rheoli'r ysgol er mwyn hwyluso prif-lifo cydraddoldeb o fewn holl bolisiau a gweithdrefnau'r ysgol. Mae Llywodraethwr sy'n Pencampwr Cydraddoldeb yn sicrhau bod yna un person o leiaf ar gorff llywodraethu'r ysgol sydd â dealltwriaeth dda o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a'r gofynion cyfreithiol ar yr ysgol. Byddai'r person yma'n chwarae rôl bwysig o ran helpu corff llywodraethu'r ysgol integreiddio cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ei benderfyniadau a sicrhau bod yr ysgol yn cymryd camau i gwrdd â'r dyletswyddau o ran cydraddoldeb.

2. Cadw Cynllun Cydraddoldeb Strategol, Cynllun Mynediad I'r Ysgol, Polisi Cydraddoldeb a Pholisi Gwrth-fwlio ac Aflonyddu a'u diweddarau'n rheolaidd. Mae'n ofyn cyfreithiol bod ysgolion yn cyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol; gallai hyn gynnwys hefyd ddatganiad polisi ar gydraddoldeb - Mae cynnwys Cynllun Mynediad fel atodiad yn arfer da. Dylid cyfeirio at Arweiniad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru am wybodaeth bellach. Dylai ysgolion hefyd gael trefniadau mewn lle ar gyfer taclo bwlio ac aflonyddu o unrhyw fath ac fe ddylai hyn gynnwys bwlio ac aflonyddu ar sail hunaniaeth – er enghraifft, ar sail anabled, hil neu ethnigrwydd, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.

3. Cyfathrebu gyda holl gymuned eich ysgol er mwyn cyfleu eich ymrwymiad i symud cydraddoldeb ymlaen, herio camwahaniaethu a mynd i'r afael â bwlio ac aflonyddu sy'n seiliedig ar hunaniaeth. Mae'n bwysig cyfathrebu gyda holl gymuned eich ysgol er mwyn cyfleu eich ymrwymiad i gynnal amgylchfyd diogel a chroesawgar i ddisgyblion, rhieni a gwarcheidwaid, staff ac ymwelwyr i'ch ysgol. Dylai'r ysgol gael cynlluniau clir mewn lle er mwyn cyfleu ei hymrwymiad.

4. Defnyddio byrddau rhybuddion cyhoeddus i arddangos eich ymrwymiad i gydraddoldeb, taclo annhegwch a chamwahaniaethu ynghyd â'r hyn sydd ar gael o ran cefnogaeth i gyfathrebu a fformatau hygyrch. Dylai hyn gynnwys manylion am Gynllun Cydraddoldeb Strategol yr ysgol, Polisi Cydraddoldeb, Polisi Gwrth-fwlio ac Aflonyddu, a threfniadau ar gyfer darparu gwybodaeth mewn fformatau hygyrch ynghyd â dulliau eraill ar gyfer sicrhau bod pawb yn gallu cael mynediad at yr ysgol a chyfathrebu'n effeithiol.

5. Sicrhau bod yr holl staff a Llywodraethwyr yn derbyn hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth (fel y mae hynny'n berthnasol i'w rôl) o fewn y drefn anwytho ac fel rhan o ddatblygiad personol parhaus staff sy'n dysgu a staff sydd ddim yn dysgu. Dylai'r ysgol roi mewn lle gynllun hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth a sicrhau bod cydraddoldeb yn rhan o'r broses anwytho staff newydd. Mae modd defnyddio neu addasu deunydd hyfforddiant sydd mewn lle yn barod gan nifer o awdurdodau lleol.

6. Defnyddio cyfarfodydd gwerthuso a goruchwyllo i godi materion cydraddoldeb ac amrywiaeth, adnabod anghenion hyfforddiant staff a'r meysydd sydd angen eu gwella yn yr ysgol. Fel rhan o'i gwaith o gynnal ei

pholisïau a gweithdrefnau cydraddoldeb, dylai'r ysgol ddefnyddio cyfarfodydd gwerthuso a goruchwyllo er mwyn gofyn i staff os oes ganddynt unrhyw faterion i'w codi neu awgrymiadau a fyddai'n hwyluso symud cydraddoldeb ymlaen mewn unrhyw elfen o'r ysgol neu'r gymuned ehangach. Efallai byddai ysgol yn dymuno cynnwys dau neu dri o gwestiynau neu bwyntiau safonol y gellir eu trafod fel rhan o'r cyfarfod gwerthuso neu oruchwyllo.

7. Datblygu rhaglen ar gyfer adolygu ac asesu effaith polisïau a gweithdrefnau ar gydraddoldeb. Mae gofyn cyfreithiol ar ysgolion i asesu effaith eu polisïau, gweithdrefnau a'u penderfyniadau ar y gwahanol grwpiau a warchodir gan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'n ofynnol hefyd i ysgolion gyhoeddi canlyniadau'r asesiadau. Dylai'r ysgol wneud rhestr o'i holl bolisïau o ran ei holl swyddogaethau, gan gynnwys cyflogaeth. Dylai hyn gynnwys y rhai a ddatblygwyd i'w defnydd ei hun yn ogystal â'r rhai a fabwysiadwyd gan yr awdurdod lleol. Mae'n debygol bod y polisïau a'r gweithdrefnau sydd wedi'u mabwysiadu gan yr awdurdod lleol wedi bod trwy asesiad effaith ar gydraddoldeb yn barod - dylai'r ysgol ofyn hyn a gofyn am gopi i'w gadw ar ffeil. Dylid cynnwys y polisïau a'r gweithdrefnau a ddatblygwyd gan yr ysgol yn y rhaglen adolygu. Bydd angen gwirio pob polisi a gweithdrefn am eu perthnasedd i'r dyletswyddau cydraddoldeb a chreu rhaglen er mwyn gosod allan pa bolisïau fydd yn cael eu hadolygu a'u hasesu am effaith ar yr holl grwpiau perthnasol a warchodir. Mae modd defnyddio ac addasu templedi asesu effaith ar gydraddoldeb sydd mewn lle gan nifer o awdurdodau lleol.

8. Ymgysylltu ac ymgynghori gydag ystod eang o bobl wrth adolygu a datblygu polisïau a gweithdrefnau newydd. Mae gan ysgolion ddyletswydd i ymgysylltu ac ymgynghori â phobl o'r grwpiau a warchodir wrth ddatblygu ac asesu polisïau a gweithdrefnau newydd neu ddiwygiedig. Gall ysgol gymryd camau i annog ystod eang o bobl o'ch cymuned i rannu eu barn a'u profiadau a defnyddio'r adborth yma wrth benderfynu ar ei pholisïau a'i gweithdrefnau.

9. Rhoi trefniadau mewn lle ar gyfer monitro cydraddoldeb o ran ymgeiswyr am swyddi, gweithwyr, Llywodraethwyr a gwirfoddolwyr Mae gan ysgolion ddyletswydd gyfreithiol i fonitro cydraddoldeb. Mae pecynnau ceisiadau am swyddi awdurdodau lleol yn cynnwys ffurflenni monitro cydraddoldeb - fodd bynnag, lle mae ysgolion yn recriwtio a dethol eu staff eu hunain, mae angen iddynt annog ymgeiswyr i ddarparu gwybodaeth monitro cydraddoldeb ac mae angen cynhyrchu dadansoddiad o'r data a ddarperir hefyd. Mae nifer o gyrff llywodraethu ysgolion yn amrywiol iawn ac efallai nad yw rhai eraill yn cynrychioli'r amrywiaeth sydd yn y gymuned ehangach nag ychwaith yn nalgylch yr ysgol. Bydd gwneud gwaith monitro cydraddoldeb cyfrinachol ar ymgeiswyr swyddi, gweithwyr, gwirfoddolwyr, a chorff llywodraethu'r ysgol yn helpu ysgolion i ganfod lle nad yw rhai grwpiau'n cael eu cynrychioli. Wedyn, bydd modd defnyddio canlyniadau'r monitro cydraddoldeb i lywio gwelliannau i bolisïau a gweithdrefnau a helpu adnabod os oes angen targedu grwpiau a dangynrychiolir pan mae lleoedd gweigion neu gyfleoedd yn codi.

10. Sicrhau bod Adroddiad Blynyddol y Corff Llywodraethu i Rieni yn cynnwys gwybodaeth am gynnydd o ran cyflawni Cynllun Cydraddoldeb Strategol yr ysgol a'r deilliannau i'w chymuned o ran cydraddoldeb. Mae gan ysgolion ofynion cyfreithiol i gyhoeddi adroddiad blynyddol yn gosod allan y cynnydd a wnaed yn erbyn eu Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol. Efallai y byddai ysgolion yn ei gweld hi'n haws i gynnwys yr holl ofynion o ran adrodd o fewn Adroddiad Blynyddol y Corff Llywodraethu i Rieni.



Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Betsi Cadwaladr  
University Health Board

